*This document is available in English* **Eitem ar yr agenda 10**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru – Cyfarfod Blynyddol** |
| Dyddiad | **20 Mehefin 2022** |
| Swyddog Arweiniol | **Clerc** |
| Swyddog Cyswllt | **Gareth Owens (01745 535286)** |
| Pwnc | **Penodi Aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub i Wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Penodi dau aelod o'r Awdurdod Tân ac Achub i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Penodi dau aelod o'r Awdurdod Tân ac Achub i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau.

## ARGYMHELLION

3 Bod yr Awdurdod yn penodi dau aelod i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau hyd yr etholiadau cyffredinol nesaf.

## CEFNDIR

4 O dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, mae'n ofynnol bod gan yr Awdurdod Tân ac Achub Bwyllgor Safonau. Mae pedwar aelod annibynnol ar y pwyllgor.

5 Gellir penodi unrhyw aelod o'r Awdurdod Tân ac Achub, ar wahân i'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd, i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau.

6 O dan Reoliadau Pwyllgor Safonau (Cymru) 2001, nid yw'r gofynion o safbwynt cydbwysedd gwleidyddol, a nodir yn Rhan I Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, yn berthnasol ar gyfer y penodiadau hyn.

## CYNGOR

7 Mae unrhyw un o'r aelodau, ar wahân i'r Cadeirydd neu'r Dirprwy Gadeirydd, yn gymwys ar gyfer cael eu penodi'n aelodau o'r Pwyllgor.

8 Ni waeth pa aelod a benodir, bydd yn rhaid iddynt wasanaethu hyd yr etholiadau cyffredinol lleol ym mis Mai 2027. Bydd cyfnod aelodau'r Pwyllgor Safonau yn dod i ben fel a ganlyn:

- 2 aelod annibynnol – ail dymor yn dod i ben ym mis Rhagfyr 2025
- 2 aelod annibynnol - tymor cyntaf yn dod i ben ym mis Awst 2023
- 2 aelod o'r Awdurdod Tân - Mai 2027 (yn ddibynnol ar yr unigolion a benodir, bydd un aelod neu'r ddau yn gymwys ar gyfer cael eu hailethol i wasanaethu am dymor arall).

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Ystyrir nad yw hyn yn berthnasol |
| Y Gyllideb | Bydd y costau presenoldeb yn dod o'r gyllideb a ddyrannwyd eisoes |
| Cyfreithiol | Mae'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn unol â'r cylch gorchwyl y cytunwyd arno.<br>Mae disgwyl i aelodau ddilyn y cod ymddygiad bob amser |
| Staff | Ystyrir nad yw hyn yn berthnasol |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Iaith Gymraeg | Ystyrir nad yw hyn yn berthnasol |
| Risg | Ystyrir nad yw hyn yn berthnasol |